# CYNGOR GWYNEDD

## ADRAN 48 DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

## RHYBUDD O GYNNIG I GAU YSGOL ABERSOCH

### CYNGOR GWYNEDD, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD, LL55 1SH

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Gwynedd, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig cau YSGOL ABERSOCH, Lon Gwydryn, Abersoch, Gwynedd, LL53 7EA. Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Gwynedd.

Cynhaliodd Cyngor Gwynedd gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghorai, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.

Cynigir gweithredu'r cynnig ar **31 Rhagfyr 2021.**

Yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni bydd disgyblion cyfredol Ysgol Abersoch yn trosglwyddo i Ysgol Sarn Bach, Sarn Bach, Gwynedd, LL53 7LF ar 1 Ionawr 2022. Mae yr ysgol yn Ysgol Gymuned Cyfrwng Cymraeg i enethod a bechgyn 3 i 11 oed wedi ei leoli ym mhentref Sarn Bach.

Bydd dalgylch Ysgol Sarn Bach o Ionawr 2022 yn cynnwys dalgylch yr ysgol fel ag y mae heddiw, a dalgylch presennol Ysgol Abersoch. Yr awdurdod mynediad ar gyfer Ysgol Sarn Bach fydd Cyngor Gwynedd a bydd disgyblion yn cael eu derbyn i'r ysgol gan Gyngor Gwynedd yn unol â'i Bolisi Mynediad. Bydd y trefniadau mynediad i'r ysgol yn cael eu gwneud heb gyfraniad at allu na medr (bandio disgyblion).

Bydd cludiant yn cael ei ddarparu i'r ysgol yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion Cyngor Gwynedd.

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod cynhaliol a Chyngor Gwynedd fydd yn gweithredu'r cynnig yma.

Mae'r cynnig hwn wedi ei lunio o ganlyniad i'r angen i gyfarch y niferoedd isel o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Abersoch ac o ganlyniad, maint bychain y dosbarthiadau, yn ogystal â rhagamcanion isel o niferoedd i'r dyfodol. Nid oedd yr un o'r opsiynau eraill a adnabuwyd ar gyfer yr ysgol, gan gynnwys ffederaleiddio, yn mynd i'r afael a'r materion hyn. Fel canlyniad ystyrir mai cau'r ysgol yw'r ymateb mwyaf priodol.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, hynny yw erbyn **23 Gorffennaf 2021.**

Dylid anfon gwrthwynebiadau ysgrifenedig at sylw'r Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH neu drwy anfon neges e-bost at sylw'r Pennaeth Addysg i moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru .

Llofnodwyd:



Garem Jackson
**Y Pennaeth Addysg, ar ran Cyngor Gwynedd**
Dyddiad Cyhoeddi: **25 Mehefin 2021**

**NODYN ESBONIADOL**
(Nid yw'r isod yn rhan o'r rhybudd ond mae'n cynnig esboniad o'i bwrpas)

Yn dilyn proses ymgynghori, mae Cyngor Gwynedd yn cynnig cau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a bydd lle yn cael ei ddarparu i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach o'r 1 Ionawr 2022.

Yn unol â pholisi mynediad yr Awdurdod, mae gan rieni hawl i wneud cais mynediad (neu gais i drosglwyddo) i unrhyw ysgol.

Bydd darpariaethau cludiant ysgol am ddim ar gael i'r disgyblion yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion Cyngor Gwynedd.